# <u>Cyngor Cymuned Llanycil</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Chwefror 13eg 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Arwel Davies, Jean Roberts, Rhys Richards, Euros Puw, Gwynfryn Williams, Rhys Jones, Geraint Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Catrin Roberts.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Tachwedd a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.</u>
i) Cerbydau yn cyfyngu'r ffordd yn Arenig – roedd yr heddlu am gadw golwg ar y sefyllfa a chael gair gyda'r perchnogion os bydd angen.
ii) Cais i newid y cyfyngiad cyflymder 20mya yn nol i 30mya rhwng yr Orsaf Heddlu a Llyn Tegid – derbyniwyd ymateb gan Lywodraeth Cymru yn egluro fod cyfiawnhad dros gadw'r terfyn cyflymder 20mya gan fod niferoedd sylweddol o gerddwyr a beicwyr yn teithio ar draws y ffordd i fynd at y llyn. Er hyny mae cryn drafod ymhlith awdurdodau priffyrdd Cymru ynglyn â adolygu'r terfynau 20mya ond cytunwyd dylid caniatau i'r terfynau cyflymder newydd setlo am gyfnod cyn ystyried unrhyw newidiadau.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Amrywiol.</u>
i) Un Llais Cymru - Dibenion gwariant y dyfodol ar gyfer arian asedau segur yng Nghymru.
ii) Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru – Cynllun Gwylio Cyflymder Cymunedol.
iii) Menter Iaith Gwynedd – Taith y Fenter Iaith – digwyddiad yng Nghanolfan Henblas, 21/02/24.
iv) Mabon ap Gwynfor – cwynion am gwteri pentref Parc.
v) Diweddariad Triathlon Y Bala.
vi) Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Strategaeth Hamdden.
vii) Heddlu – cyfarfod lleol. Cytunodd Arwel Davies a Jean Roberts fynychu'r cyfarfod ar ran y Cyngor.
viii) Parc Cenedlaethol Eryri – Grantiau Llesiant Cymunedol.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**
a) Derbyniwyd y cais canlynol:-
NP5/72/254: Adeiladu tŷ menter wledig a gosod uned trîn carthion Tir ger Dol Hir, Frongoch.

Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.

**<u>vi) Materion Ariannol.</u>**
<u>a) Penodi Archwiliwr Mewnol.</u>
Cytunwyd i benodi uned archwilio fewnol Cyngor Gwynedd.

<u>b) Panel Annibynnol Cymru.</u>
Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Chrynodeb o Benderfyniadau 2024-25.

<u>c) Archwilio Cymru.</u>
Cynllun Ffioedd 2024-25.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….

ch) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

d) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) ICO
ii) Archwilio Cymru

dd) Cyfraniadau Ariannol.
i) Derbyniwyd ceisiadau gan Urdd Gobaith Cymru – Meirionnydd, Llen y Llannau, Dawns i Bawb a Phwyllgor Chwaraeon a Cymdeithasol y Parc. Cytunwyd i ddilyn y drefn arferol a'i drafod yn ein cyfarfod ym mis Mawrth.

**vii) Unrhyw Fater Arall.**
a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Dŵr yn dod lawr y ffordd heibio, Nodyn y Nant, Parc.
ii) Coeden wedi disgyn ger mynedfa Pant Neuadd, Parc ac roedd gwreiddiau'r goeden wedi chwalu'r ffos.
iii) Ffosydd angen eu clirio rhwng grid Talybont lawr i Tŷ Du, Parc
iv) Canghennau wedi dod i lawr dros y ffordd rhwng pentref Parc a Cyffdy.
v) Angen clirio'r gully's ar hyd y ffordd o bentref Parc i Wern Goch, dail marw yn un o'r prif broblemau.
vi) Gofynnwyd i'r clerc gysylltu â Dŵr Cymru i drafod y diffyg arwyddion rheolaeth traffig pan fu rhaid cau'r ffordd yn Llidiardau yn ddiweddar a hefyd y llanast a wnaed gan y lorïau ym mhentref Rhyduchaf.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Mawrth 12fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.


Arwyddwyd: ……………………………………….. Dyddiad: ……………….